Mumbles Community Council

# Minutes of Culture, Tourism & Communications Committee Meeting Wednesday, 26th March 2025, at 2pm via Teams

**Councillors Present:** Cllrs. Angela O'Connor (Chair), Rob Marshall (Vice Chair), Martin O'Neill, Richard Jarvis and Tim Zhou.

**Officers Present:** Paul Beynon - RFO

**Others Present:** Cllr Will Thomas.

CT2503-01 **Apologies for Absence**
None

CT2503-02 **Declarations of Interest**
None

CT2503-03 **Minutes of the Previous Meeting of the Committee**
To approve the minutes of the meetings held on 5th March 2025 as a true record.

.

**RESOLVED:** To approve the meeting minutes held on 5th March 2025 as an accurate record.

CT2503-04 **Update on actions from previous meetings.**
In the absence of the CSO, update on actions deferred to April Committee Meeting.

CT2503-05 **Budget Monitoring Report to 31/01/2025 - RFO, Paul Beynon** - Reports attached.
Financial reports prepared by RFO Paul Beynon had previously been distributed to committee members. No questions relating to the budget reports had been provided either to the CSO or the RFO prior to the meeting.

The RFO outlined areas of underspend in light of the current financial year finishing shortly. Areas of underspend included floral decorations, newsletter printing and distribution, Festoon Lighting on Mumbles Road, St David's Day Celebration and for the 80th Anniversary Celebrations to mark D-Day. There is potentially an overspend in the region of £600 in relation to the Merry Christmas Grant due to additional items including a Christmas tree base and fencing being added to the original application.

Consideration may be given to vire money from underspend budgets to cover this cost.

No questions were asked of The RFO in relation to his report at the meeting.

**RESOLVED** to approve the budget monitoring report to 31st January 2025.

Cllrs Will Thomas and Richard Jarvis joined the meeting at 2.05pm

CT2503-06

**Honour of Mumbles**

Cllr Thomas arranged for the circulation of a briefing document in relation the Honour of Mumbles to be made to the committee members.
Cllr Thomas briefly outlined the proposal detailing how in the event of this award being reintroduced the responsibility for the arrangements should be shared amongst a number of Councillors.
Cllr Thomas suggested that each Councillor should be restricted to one nomination or being a seconder to a nomination. The award should be restricted to two individuals of appropriate character who do not have a criminal record. Formal nominations would be restricted to councillors who could receive suggestions from members of the public. Voting for the recipient of the award, should take place at MCC's annual meeting with the award being made at the Mumblesfest Festival.

During the discussion that followed consideration was given to the number of potential recipients including whether groups such as societies should be included. Consideration was also given to the reference of criminal records.

It was the consensus of the committee that any reference to criminal records should be omitted and that the character of a potential award recipient be included within the term 'appropriate person'. It was also considered that for the first award after a long absence, only one person should receive the award, with the existing budget of £250 being sufficient to cover the award.

**ACTION:** Cllr Thomas to amend The Honour of Mumbles Briefing Document prior to April's Meeting of Full Council

**RECOMMENDATION:** That the Honour of Mumbles award is re-introduced and MCC select one individual to be awarded The Honour of Mumbles at May's Annual Meeting. The award to be made at Mumblesfest Festival on 7 June 2025 with any necessary expenditure being funded from the existing budget of £250 in CTC47 – Honour of Mumbles

Mumbles Community Council

CT2503-07 **Ostreme Illumination**

The Chair, Cllr O'Connor outlined that Claire Anderson had received further quotes for lighting which were considerably cheaper. These had been circulated to committee members prior to the meeting. The cost of installation would be between £300 and £400 depending upon the location, and the cost of the light fitting itself would be under £100.

**RECOMMENDATION:** That MCC purchase and install a multi-coloured lighting system at a cost of £500 in order to commemorate Baby Loss Awareness Days and other events.

CT2503-08 **VE Update**

Claire Anderson had prepared a briefing document that had been circulated to committee members prior to the meeting.

The Chair outlined how arrangements to celebrate the 80th Anniversary of VE Day at The Ostreme on 8th May 2025 are well under way. Catering has been arranged, and both Rob Pendry and Maddie Fordham have been booked. A table has been arranged for The RAF to sell poppies.
The Lord Lieutenant will be in attendance and Cllr Marshall is in the process of inviting three local veterans. To date 65 people have registered to attend, but numbers are increasing on a daily basis.
Claire Anderson asked for as many Councillors as possible to assist on the day and inform her of their availability

**ACTION:** All Committee Councillors to inform Claire Anderson of their availability to assist with arrangements on 8th May 2025 at Ostreme to commemorate VE Day.

CT2503-09 **Spotlighting Traders in Social Media**

Claire Anderson had prepared a briefing document that had been circulated to committee members prior to the meeting.

The Chair, Cllr O'Connor outlined that in addition to running Spotlight posts in conjunction with our Small Business Week promotion, (Mumbles May Madness during the period of 1-10th May) it would be great to offer this opportunity on an ongoing basis so MCC can help all local traders promote their businesses throughout the year.

**RECOMMENDATION:**

MCC put a social media post out calling ALL local traders to send us information to run spotlight posts via events@mumbles.gov.uk It would be great to highlight new businesses coming into the area as well as supporting existing ones too.

**Mumbles May Madness Update**

CT2503-10 The Chair, Cllr O'Connor had provided an update on the Mumbles May Madness proposal in the previous agenda item (CT2503-09). Approval for the February Committee's recommendation in relation to Mumbles May had been obtained at the March Full Council Meeting.

**Dragon Parade**

CT2503-11 The Chair, Cllr O'Connor outlined how she had received representations from local residents/businesses to resurrect the Dragon Parade. MCC had not held any formal St. David's Day celebrations in 2025 and a number of residents had suggested using the Dragon Parade next year to commemorate St David's Day.

Enquiries by Cllr O'Connor revealed that she had received a quote of £2,368 for the repair of the dragon currently in storage.

During the discussion on holding a Dragon Parade it was clarified that there was a current budget of £750 for St David's Day together with £750 for the forthcoming financial year making a total of £1,500 being available for a 2026 event.

The general consensus of the committee was that over £2,000 was too much for a one-off event. In addition, extra costs for transportation and repair of the dragon are likely to be incurred. Cllr O'Connor updated the committee that on previous occasions there had been difficulties in obtaining sufficient volunteers to support the event.
The committee debated alternatives to the Dragon Parade including local schools being sponsored to create dragon models and participating in a parade with a hired dragon.
Options to be discussed at future committee meetings.

**ACTION:** to be discussed as an agenda item at June Committee Meeting and councillors to bring forward ideas to discuss to celebrate St David's Day in 2026.

Mumbles Community Council

CT2503-12 **Exclusion of Press and Public**

In accordance with the provisions of the Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960, it is proposed that the press and public be excluded for the following items of business due to the confidential nature of the business to be transacted.

**RESOLVED** that due to the confidential nature of the business to be discussed, the press and public be excluded from the meeting.

Cllrs Thomas and Jarvis left the meeting at 2.36pm

Recording of the meeting was terminated at 2.37pm

**MumblesFest 2025 – Closed Session**

Discussion took place on the progress of MumblesFest 2025.

**The meeting ended at 3.02pm.**

**Next Meeting to be arranged**

Mumbles Community Council

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, Twristiaeth a Chyfathrebu a gynhaliwyd ddydd Mercher, 26 Mawrth 2025, am 2pm drwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Y Cynghorwyr Angela O'Connor (Cadeirydd), Rob Marshall (Is-gadeirydd), Martin O'Neill, Richard Jarvis a Tim Zhou.

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol

**Eraill yn bresennol:** Y Cynghorydd Will Thomas

CT2503-01 **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Dim

CT2503-02 **Datganiadau o fuddiant**
Dim

CT2503-03 **Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**
Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.
.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2025 fel cofnod cywir.

CT2503-04 **Diweddariad ar gamau gweithredu cyfarfodydd blaenorol.**
Yn absenoldeb y Swyddog Cymorth Pwyllgorau, gohiriwyd diweddariad ar gamau gweithredu tan gyfarfod y pwyllgor ym mis Ebrill.

CT2503-05 **Adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2024 – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon** – Adroddiadau wedi'u hatodi.
Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan Paul Beynon, y Swyddog Ariannol Cyfrifol, eisoes wedi'u dosbarthu i aelodau'r pwyllgor. Nid oedd unrhyw gwestiynau yn ymwneud â'r adroddiadau cyllideb wedi'u darparu i'r Prif Swyddog Cymorth Pwyllgorau na'r Swyddog Ariannol Cyfrifol cyn y cyfarfod.

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol feysydd o danwariant yng ngoleuni'r flwyddyn ariannol gyfredol sy'n dod i ben yn fuan. Roedd y meysydd o danwariant yn cynnwys addurniadau blodau, argraffu a dosbarthu cylchlythyrau, goleuadau peli awyr agored

ar Heol y Mwmbwls, dathliad Dydd Gŵyl Dewi ac ar gyfer dathliadau nodi 80 mlynedd o D-Day. Mae gorwariant posibl o tua £600 mewn perthynas â'r grant Nadolig Llawen oherwydd bod eitemau ychwanegol, gan gynnwys sylfaen coeden Nadolig a ffens, wedi'u hychwanegu at y cais gwreiddiol. Gellir ystyried trosglwyddo arian o gyllidebau tanwariant i dalu'r gost hon.

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol mewn perthynas â'i adroddiad yn y cyfarfod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 31 Ionawr 2025.

Ymunodd y Cynghorwyr Will Thomas a Richard Jarvis â'r cyfarfod am 2.05pm

CT2503-06

**Anrhydedd y Mwmbwls**

Trefnodd y Cynghorydd Thomas i ddogfen friffio ynghylch Anrhydedd y Mwmbwls gael ei dosbarthu i aelodau'r pwyllgor.
Amlinellodd y Cynghorydd Thomas y cynnig yn fyr gan nodi sut, pe bai'r wobr hon yn cael ei hailgyflwyno, y dylid rhannu'r cyfrifoldeb am y trefniadau ymhlith nifer o gynghorwyr.
Awgrymodd y Cynghorydd Thomas y dylid cyfyngu pob cynghorydd i un enwebiad neu fod yn eilydd i enwebiad. Dylid cyfyngu'r wobr i ddau unigolyn o gymeriad priodol nad oes ganddynt gofnod troseddol. Byddai cyflwyno enwebiadau ffurfiol yn cael ei gyfyngu i gynghorwyr, a allai dderbyn awgrymiadau gan aelodau'r cyhoedd. Dylai pleidleisio dros dderbynnydd y wobr ddigwydd yng nghyfarfod blynyddol Cyngor Cymuned y Mwmbwls, gyda'r wobr yn cael ei chyflwyno yng Ngŵyl y Mwmbwls.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ystyriwyd nifer y derbynwyr posibl gan gynnwys a ddylid cynnwys grwpiau fel cymdeithasau. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r cyfeiriad at gofnodion troseddol.

Consensws y pwyllgor oedd y dylid hepgor unrhyw gyfeiriad at gofnodion troseddol a chynnwys cyfeiriad at gymeriad derbynnydd gwobr posibl o fewn y term 'unigolyn priodol'. Ystyriwyd hefyd, ar gyfer y wobr gyntaf ar ôl absenoldeb hir, mai dim ond un unigolyn ddylai dderbyn y wobr, ac y byddai'r gyllideb bresennol o £250 yn ddigonol i dalu am y wobr.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Thomas i ddiwygio Dogfen Briffio Anrhydedd y Mwmbwls cyn cyfarfod llawn y cyngor ym mis Ebrill

**ARGYMHELLIAD:** Bod gwobr Anrhydedd y Mwmbwls yn cael ei hailgyflwyno a bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn dewis un unigolyn i dderbyn Anrhydedd y Mwmbwls

yng nghyfarfod blynyddol mis Mai. Bydd y wobr yn cael ei rhoi yng Ngŵyl y Mwmbwls ar 7 Mehefin 2025 gydag unrhyw wariant angenrheidiol yn cael ei ariannu o'r gyllideb bresennol o £250 yn CTC47 – Anrhydedd y Mwmbwls

CT2503-07 **Goleuo Ostreme**

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, fod Claire Anderson wedi derbyn dyfynbrisiau pellach ar gyfer goleuadau a oedd yn sylweddol rhatach. Roedd y rhain wedi cael eu dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod. Byddai cost gosod rhwng £300 a £400 yn dibynnu ar y lleoliad, a chost y goleuadau eu hunain o dan £100.

**ARGYMHELLIAD:** Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn prynu ac yn gosod system oleuadau aml-liw am gost o £500 er mwyn coffáu Diwrnodau Ymwybyddiaeth Colli Babanod a digwyddiadau eraill.

CT2503-08 **Diweddariad VE**

Roedd Claire Anderson wedi paratoi dogfen friffio a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Amlinellodd y cadeirydd sut mae trefniadau i nodi 80 mlynedd ers Diwrnod VE yn yr Ostreme ar 8 Mai 2025 yn mynd rhagddynt yn dda. Mae arlwyo wedi'i drefnu, ac mae Rob Pendry a Maddie Fordham wedi cael eu bwcio. Mae bwrdd wedi'i drefnu i'r RAF werthu pabïau.
Bydd yr Arglwydd Raglaw yn bresennol ac mae'r Cynghorydd Marshall wrthi'n gwahodd tri chyn-filwr lleol. Hyd yn hyn mae 65 o bobl wedi cofrestru i fynychu, ond mae'r niferoedd yn cynyddu'n ddyddiol.
Gofynnodd Claire Anderson am gynifer o gynghorwyr â phosibl i gynorthwyo ar y diwrnod a'i hysbysu a ydynt ar gael.

**CAM GWEITHREDU:** Dylai pob cynghorydd pwyllgor hysbysu Claire Anderson eu bod ar gael i gynorthwyo gyda threfniadau ar 8 Mai 2025 yn Ostreme i goffáu Diwrnod VE.

CT2503-09 **Rhoi sylw i fasnachwyr yn y cyfryngau cymdeithasol**

Roedd Claire Anderson wedi paratoi dogfen friffio a oedd wedi'i dosbarthu i aelodau'r pwyllgor cyn y cyfarfod.

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, yn ogystal â chynnal postiadau yn rhoi sylw i fasnachwyr ar y cyd â'n hyrwyddiad Wythnos Busnesau Bach, (Miri Mai y Mwmbwls yn ystod y cyfnod 1-10 Mai) y byddai'n wych cynnig y cyfle hwn yn barhaus fel y gall Cyngor Cymuned y Mwmbwls helpu pob masnachwr lleol i hyrwyddo eu busnesau drwy gydol y flwyddyn.

**ARGYMHELLIAD:**

Bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cyhoeddi postiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn galw ar BOB masnachwr lleol i anfon gwybodaeth atom i gyhoeddi postiadau yn rhoi sylw i fasnachwyr drwy events@mumbles.gov.uk Byddai'n wych gallu tynnu sylw at fusnesau newydd sy'n dod i'r ardal, yn ogystal â chefnogi rhai sydd eisoes yn bodoli hefyd.

CT2503-10 **Diweddariad Miri Mai y Mwmbwls**

Roedd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnig digwyddiad Miri Mai y Mwmbwls yn yr eitem agenda flaenorol (CT2503-09).Cafwyd cymeradwyaeth ar gyfer argymhelliad pwyllgor mis Chwefror mewn perthynas â Miri Mai y Mwmbwls yng nghyfarfod y cyngor llawn ym mis Mawrth.

CT2503-11 **Gorymdaith y Ddraig**

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd O'Connor, sut yr oedd wedi derbyn sylwadau gan breswylwyr/busnesau lleol i adfywio Gorymdaith y Ddraig. Nid oedd Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi cynnal unrhyw ddathliadau Dydd Gŵyl Dewi ffurfiol yn 2025 ac roedd nifer o drigolion wedi awgrymu defnyddio Gorymdaith y Ddraig y flwyddyn nesaf i goffáu Dydd Gŵyl Dewi.

Datgelodd ymholiadau gan y Cynghorydd O'Connor ei bod wedi derbyn dyfynbris o £2,368 ar gyfer atgyweirio'r ddraig sydd mewn storfa ar hyn o bryd.

Yn ystod y drafodaeth ar gynnal Gorymdaith y Ddraig, eglurwyd bod cyllideb gyfredol o £750 ar gyfer Dydd Gŵyl Dewi ynghyd â £750 ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod, gan wneud cyfanswm o £1,500 ar gael ar gyfer digwyddiad yn 2026.

Consensws cyffredinol y pwyllgor oedd bod dros £2,000 yn ormod ar gyfer digwyddiad untro. Yn ogystal, mae'n debygol y bydd costau ychwanegol ar gyfer cludo ac atgyweirio'r ddraig. Rhoddodd y Cynghorydd O'Connor yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor fod anawsterau wedi bod ar achlysuron blaenorol wrth geisio cael digon o wirfoddolwyr i gefnogi'r digwyddiad.
Trafododd y pwyllgor ddewisiadau eraill yn lle Gorymdaith y Ddraig gan gynnwys ysgolion lleol yn cael eu noddi i greu modelau o ddreigiau a chymryd rhan mewn gorymdaith gyda draig wedi'i llogi.

Dewisiadau i'w trafod mewn cyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol.

**CAM GWEITHREDU:** i'w drafod fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Mehefin a chynghorwyr i gyflwyno syniadau i'w trafod i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn 2026.

CT2503-12 **Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

Yn unol â darpariaethau Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, cynigir bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r eitemau busnes a ganlyn oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod.

**PENDERFYNWYD** , oherwydd natur gyfrinachol y busnes i'w drafod, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod.

Gadawodd y Cynghorwyr Thomas a Jarvis y cyfarfod am 2.36pm

Daeth recordiad y cyfarfod i ben am 2.37pm

**Gŵyl y Mwmbwls 2025 – sesiwn gaeedig**

Cafwyd trafodaeth ar hynt Gŵyl y Mwmbwls 2025.

**Daeth y cyfarfod i ben am 3.02pm.**

**Cyfarfod nesaf i'w drefnu**